# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Mawrth 9fed 2022

**Presennol**

Cyng. S.Roberts,G.Jones,C.Dixon,D.Morris

**<u>Ymddiheuriadau:</u>**

Cyng G.Hughes.

**Cofnodion Chwefror 2022.**

Cynnigodd D.Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng S.Roberts

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Diffibrilydd ardal Hermon- Mae’r erthygl wedi ymddangos yn Llygad y Dydd yn hysbysebu lleoliad y diffibrilydd newydd ac yn diolch i berchennog Dolfrwynnog Newydd am ganiatau gosod yr offer ar ei dir.

Sbwriel A470- Mae’r cyngor wedi bod yn casglu sbwriel sydd wedi ei dalfu ar ochr ffordd A470 rhwng y pentref a Gelli Goch.

Mae’r bont sydd wedi lleoli ar llwybr 11 ger Hafod y Fedw wedi ei thrwsio gan gweithwyr Cyngor Gwynedd.

**Cynghorydd Sir.**

Ddim yn bresennol.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Chwefror 2022

Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: £4505.58

Derbyniwyd: Dim

Taliadau:

| | |
|---|---|
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau Banc | £8 |
| | |
| Yn y Banc diwedd mis | £4397.58 |

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant  misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Mae’r cyngor wedi cytuno talu anfoneb am waith trydanol wrth osod y diffibrilydd yn ardal Hermon.

Bydd y clerc yn gyrru siec £241.20 i Ffranc y trydanwr, Maerdy.

**Llythyrau & E.bost.**

Dim

**Unrhyw fater arall.**

Tynnodd Cyng Dixon sylw'r cyngor at gyflwr Beech Road. O ganlyniad i weithgarwch torri coed hanesyddol yn yr ardal mae’r landeri a’r draeniau yn yr ardal yn llawn malurion ac mae rhigolau yn y gilfan a ddefnyddir fel man pasio.

Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd.